Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Dirybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Canolfan Ddeintyddol Mill Lane

13 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-4539-0
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Methodoleg ........ 2

3. Cyd-destun ........ 4

4. Crynodeb ........ 5

5. Canfyddiadau ........ 6

Profiad y Claf ........ 6

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 7

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 8

Ansawdd yr Amgylchedd ........ 9

6. Y Camau Nesaf ........ 10

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol dirybudd o Ganolfan Ddeintyddol Mill Lane, rhan o'r grŵp IDH, yn Mill Lane, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA15 3SE, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 13 Mai 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru[1].

Mae AGIC yn deall bod Practis Deintyddol Mill Lane yn bractis cymysg sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a'r GIG. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

[1] Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. www.wales.nhs.uk/governance-emanual/agordogfen/218839

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a’r safle;
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon sy'n parhau i fod angen eu gwella yn ystod ymweliad dilynol yn cael eu hystyried dan broses uwchgyfeirio AGIC.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Mill Lane yn darparu gwasanaethau i gleifion y GIG yn bennaf, gyda rhai cleifion preifat, yn ardal Llanelli yn Sir Gaerfyrddin. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sydd ar hyn o bryd yn cynnwys pedwar deintydd, chwe nyrs ddeintyddol, rheolwr practis a dau dderbynnydd. Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Gwynnu dannedd
- Coronau a phontydd
- Dannedd gosod
- Mewnosodiadau
- Gorchuddion dannedd chwaraeon

## 4. Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag arolygiad dilynol a gynhaliwyd gan AGIC ar 13 Mai 2015 yng Nghanolfan Ddeintyddol Mill Lane er mwyn gwirio bod y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod arolygiad blaenorol AGIC (3 Mawrth 2015) wedi'u cwblhau. Roedd hyn yn unol â safonau gofal hanfodol y GIG yn y ddogfen *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well*: *Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Gwelwyd bod gwelliannau wedi'u gwneud yn y rhan fwyaf o'r meysydd. Gwelsom fod y broses ail-frandio yn parhau ar hyn o bryd a gwnaethom ofyn iddynt anfon rhai o'r dogfennau i AGIC ar ôl i'r practis eu derbyn. Roedd toiledau'r cleifion yn parhau i fod yn broblem.

Roedd adolygiad sylweddol o arferion clinigol wedi'i gynnal. Roedd hwn yn rhoi sylw i'r holl faterion a godwyd yn y cynllun gwella. Rydym bellach yn fodlon bod y gwasanaeth a ddarperir i gleifion wedi gwella.

Rhoddwyd tystiolaeth i ni o systemau addas ar gyfer mesur safonau ansawdd a diogelwch hanfodol sy'n gysylltiedig â'r darparu gofal a thriniaeth ddeintyddol i gleifion. Roedd rhai meysydd nad oeddent wedi derbyn sylw ond gwnaethom ofyn i'r rheolwr practis anfon y dogfennau atom cyn gynted ag yr oeddent wedi'u datblygu.

Mae adnewyddu ac ailaddurno pob ardal yn adeilad y practis wedi arwain at welliant sylweddol i gynllun, glendid a golwg amgylchedd cyffredinol y practis er budd cleifion a staff.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Gwelwyd gwelliannau yn y rhan fwyaf o'r meysydd a nodwyd. Gwelsom fod y broses ail-frandio yn parhau ar hyn o bryd a gwnaethom ofyn iddynt anfon rhai o'r dogfennau i AGIC ar ôl i'r practis eu derbyn. Roedd toiledau'r cleifion yn parhau i fod yn broblem.**

Gwnaethom edrych ar sampl o nodiadau cleifion a ddewiswyd ar hap, a gwelsom fod cynlluniau deintyddol ysgrifenedig ar gyfer pob cwrs o driniaeth bellach ar gael, bod dewisiadau o ran triniaethau'n cael eu trafod erbyn hyn, a gwelsom nodiadau o'r sgyrsiau a gafwyd mewn cofnodion cleifion. Gwelsom hefyd fod cydsyniad i driniaeth bellach yn cael ei gofnodi.

Roedd y weithdrefn gwyno'n cael ei diweddaru ar y pryd yn y brif swyddfa ac roedd y rheolwr practis yn aros am y ddogfen gyda brand newydd y cwmni. Cytunom y byddai copi'n cael ei gyflwyno i AGIC ar ôl i'r weithdrefn gael ei chwblhau.

Roedd y taflenni gwybodaeth i gleifion yn cael eu hailfrandio hefyd ac roedd rheolwr y practis yn aros i'r taflenni gael eu hanfon atynt. Cytunom y byddai copi'n cael ei gyflwyno i AGIC ar ôl iddynt gael eu cwblhau.

Ar ddiwrnod yr ymweliad dilynol, nid oedd y toiled a oedd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn yn gweithio. Gwelsom nad oedd un o doiledau'r cleifion yn gweithio ychwaith, bod sedd y toiled wedi torri ac nad oedd papur tŷ bach ar gael. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr practis, a hysbysodd yr adran cynnal a chadw yn y brif swyddfa am y materion.

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Roedd y practis wedi cynnal adolygiad sylweddol o'u harferion clinigol ac wedi rhoi sylw i'r holl faterion a nodwyd yn y cynllun gwella.Rydym bellach yn fodlon bod y gwasanaeth a ddarperir i gleifion wedi gwella.**

Gwnaethom edrych ar y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd a gwelsom fod y dogfennau gofynnol ar gael. Gwnaethom edrych hefyd ar archwiliadau cynnal a chadw offer ac roedden nhw hefyd yn gyfredol. Bydd hyn yn sicrhau bod amgylchedd diogel i gleifion gael sganiau pelydr-X. Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant ymbelydredd ar gyfer pob aelod o'r staff yn y practis. Mae hyn bellach yn bodloni'r gofynion bod pob aelod o staff sy'n defnyddio offer pelydr-X yn dilyn hyfforddiant bob pum mlynedd.

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y deintyddion wedi derbyn hyfforddiant mewn cadw cofnodion. Roedd hyn hefyd yn amlwg yn y gwelliannau yng nghofnodion y cleifion. Mae hyn yn hybu arfer diogel lle gall pob aelod o'r staff weld y driniaeth sydd wedi'i chynllunio ar gyfer pob claf a'r driniaeth sydd wedi'i chynnal.

Gwelsom fod y practis wedi dechrau cynnal archwiliadau rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a dywedodd y rheolwr practis wrthym y byddai'r practis yn parhau i'w cynnal bob tri mis. Mae hyn yn cadw'r amgylchedd yn lân ac yn sicrhau bod offer yn cael eu glanhau'n briodol wrth baratoi i'w defnyddio yn ystod triniaethau cleifion.

Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a oedd wedi cael sgan pelydr-X yn ddiweddar, a gwelsom fod y cyfiawnhad dros gynnal y sgan pelydr-X, y canfyddiadau clinigol a'r cynlluniau triniaeth ar gael. Gwnaethom edrych hefyd ar gofnodion cleifion a fu angen anesthetig lleol yn ddiweddar, ac roedd rhif y swp, y nifer, a'r man lle y'i rhoddwyd wedi'i gofnodi yn y cofnodion cleifion. Mae hyn yn sicrhau bod y deintyddion yn cynnig gofal deintyddol sydd wedi'i seilio ar arferion clinigol diogel.

Mae'r sefydliad bellach wedi cyflogi ymgynghorydd clinigol sydd wrthi'n cynnal archwiliadau clinigol/gan gymheiriaid yn y practis. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb ymysg deintyddion a bydd hefyd yn ffordd o rannu arferion da.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Rhoddwyd tystiolaeth i AGIC o systemau addas ar gyfer mesur safonau ansawdd a diogelwch hanfodol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth gofal a thriniaeth ddeintyddol i gleifion. Roedd rhai meysydd nad oeddent wedi derbyn sylw ond gwnaethom ofyn i'r rheolwr practis anfon y dogfennau atom cyn gynted ag yr oeddent wedi'u datblygu.**

Gwelsom a chlywsom gan staff fod yr awyrgylch gweithio wedi gwella'n sylweddol. Roedd cyfarfodydd tîm cynhwysol yn cael eu cynnal a oedd yn dangos bod y tîm staff yn ymgynefino ag amgylchedd gweithio dymunol. Mae hyn hefyd yn gwella profiad y cleifion, pan fo'r staff yn hapus yn eu lle gwaith.

Gwnaethom ofyn am weld y polisi oedolion sy'n agored i niwed a gwelsom nad oedd ein pryderon o ran hyn wedi derbyn sylw o hyd. Mae angen i'r practis sicrhau bod polisi a gweithdrefn gyfredol wedi'u sefydlu fel bod y staff yn gwybod sut i adnabod ac ymdrin â chleifion sy'n agored i niwed y gallai fod angen eu hamddiffyn. Gofynnwyd i'r rheolwr practis anfon copi o'r ddogfen hon pan oedd wedi'i llunio. Dywedwyd wrthym na fyddai gwybodaeth benodol ar gael hyd y byddent wedi dilyn yr hyfforddiant fis nesaf. Gwelsom fod y staff wedi trefnu lle ar hyfforddiant amddiffyn plant / oedolion ym mis Mehefin. Bydd hyn yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant i adnabod a chynorthwyo cleifion o bob oedran y gallai fod angen eu hamddiffyn.

Gwnaethom ofyn hefyd am weld y polisi preifatrwydd ac urddas, ac nid oedd y practis wedi'i lunio o hyd. Mae angen ei roi ar waith fel bod y staff yn ymwybodol o safonau'r sefydliad ynglŷn â'r materion hyn. Mae angen ei anfon at AGIC hefyd pan fydd y ddogfen wedi'i llunio.

Gwelsom dystiolaeth fod ymgynghorydd clinigol y grŵp IDH wedi cynnal archwiliad mewnol. Byddai'r canlyniadau ar gael ar ddiwedd mis Medi. Bydd hyn yn arfer parhaus.

Gwelsom fod blwch awgrymiadau bellach ar gael yn y man aros yn y practis, a dywedwyd wrthym fod y practis yn bwriadu dosbarthu mwy o holiaduron cleifion yn unol â chanllawiau'r sefydliad.

Gwelsom fod poster yn y man aros a oedd yn dangos prisiau triniaethau preifat unigol yn glir. Mae hyn yn galluogi cleifion i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'r triniaethau maent yn eu dewis.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Mae adnewyddu ac ailaddurno pob ardal yn adeilad y practis wedi arwain at welliant sylweddol i gynllun, glendid a golwg amgylchedd cyffredinol y practis er budd cleifion a staff.**

Gwelsom fod arwydd y tu allan gyda rhestr o'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis a'u cymwysterau. Mae hyn yn galluogi cleifion i wybod enwau a chymwysterau'r deintyddion sy'n cynnig triniaethau, a gallant wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â phwy maent yn ei ddymuno i gynnal eu triniaeth.

Ni welsom arwydd gyda rhestr o enwau'r staff, eu swyddogaethau, eu cymwysterau na'u rhifau cofrestru, fel bod cleifion yn gallu adnabod y tîm sy'n gweithio yn y practis. Gwnaethom ofyn i'r rheolwr practis am hyn a dywedwyd wrthym eto ei fod yn cael ei ddatblygu yn unol â phroses ail-frandio'r sefydliad, a'i bod yn disgwyl yr arwydd yn fuan iawn. Gwnaethom ofyn iddi roi cadarnhad i ni pan fyddai hwn wedi'i anfon atynt.

.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, nid oes angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella pellach. Er bod y gwelliannau sydd eisoes wedi'u gwneud yn amlwg, dylai'r darparwr sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol yn barhaus. Bydd AGIC yn ystyried effeithiolrwydd y trefniadau hyn ar adeg yr arolygiad nesaf.